

Meaningful Chocolate 2016
Adnoddau Adfent

Gwasanaeth 1:

Hanes y Nadolig

Gêm cofio

CA 1-2

NODIADAU

i gyd-fynd â'r PowerPoint

Bwriad:

I adrodd hanes y Nadolig, a'i atgyfnerthu drwy chwarae gêm cofio sy'n rhoi sialens i'r plant.

Mae'r nodiadau yn:

- Cynnwys syniadau am eitemau sy'n rhoi cliwiau ar gyfer Hanes y Nadolig
- cynnwys canllawiau ar sut i chwarae'r gêm cofio.
- Cynnwys cyflwyniad lliwgar o hanes y Nadolig sydd wedi ei baratoi gan y 'Meaningful Chocolate Company' gan ddefnyddio lluniau hyfryd Alida Massari o'r 'Calendr Adfent go iawn' 2016.

Adnoddau:

PowerPoint (lawrlwytho o www.realadvent.co.uk/resources) a'r ddogfen hon.

Byddwch angen:

Hambwrdd yn cynnwys -

1. Pluen
2. Sgrôl (gwnewch sgrôl syml)
3. Coron (torri un allan o bapur / neu dynnu un o gracer ayb)
4. Anrheg
5. Baby-Gro'
6. Darn 10 ceiniog
7. Persawr neu after-shave
8. Gwlân
9. Glôb / Map yn dangos Israel
10. Cwpan

Technegol:

Mae cyfle i chi roi enw'ch ysgol ayb. ar y sleid gyntaf.



Dechreuwch drwy ddweud eich bod am roi sialens i bawb - tybed pa mor dda maen nhw'n gallu cofio? (Rhowch hambwrdd gwag o'u blaenau).

Dwedwch fod ganddoch chi 10 eitem ac eich bod chi am eu gosod fesul un ar yr hambwrdd er mwyn i bawb gael cyfle i'w gweld.

Pluen

Am be dych chi'n meddwl pan welwch chi bluen? Be sy gydag adenydd? (Tybed os wneith rhywun ddweud 'angel'). Oes rhywun yn gwybod be di cwilsyn 'quill'? Ers talwm roedd pobl yn 'sgwennu gyda phluen - cwilsyn.

Cwpan

Pa bryd dyn ni'n defnyddio'r rhain? Mae yna gwpan ym mhob tŷ.

Sgrôl

Be ydy hwn? Cyn i lyfrau gael eu dyfeisio roedd pobl yn ysgrifennu ar sgroliau. Yn yr Aifft roedden nhw'n defnyddio gwair arbennig - 'papyrus' – i wneud y sgroliau. Mewn rhai gwledydd roedden nhw'n ysgrifennu ar 'vellum' sef croen anifeiliaid. Rydyn ni i gyd wedi **sgrolio** i lawr ein sgrin cyfrifiadur – sgrolio, o'r gair sgrôl.

Coron

Be di hwn? Rydyn ni'n gallu dysgu llawer am berson wrth edrych ar ei het/benwisg. Weithiau, rydyn ni'n dysgu eu bod yn bobl bwysig iawn.

Anrheg

Wel, mae'r Nadolig yn agosáu, felly o'n i'n meddwl y byddai'n dda i roi anrheg ar yr hambwrdd.

Baby-gro'

Be di hwn?

Darn arian

Darn arian cyffredin ydy hwn – ond mae yna lun o'r frenhines arno. Dyma'r math cynharaf o luniau sydd gennym ni – rydyn ni'n gwybod sut oedd rhai o'r Ymerawdwr Rhufeinig yn edrych am fod eu lluniau ar y darnau arian.

Persawr neu after-shave

Hwn ydy fy hoff bersawr/aftershave. Ydych chi'n ei hoffi? (Gadewch i rywun gael sniff!).

Gwlân

Dŷn ni eisiau i'r plant ddeall ei fod yn dod o'r ddafad; yn cael ei gribo a'i drin; ei nyddu, a'n bod ni'n gallu gwau siwmperi ohono.

Glôb / Map

Dangoswch i'r plant ble maen nhw'n byw, a ble mae hanes y Nadolig yn digwydd. (Israel)

Wel, dyma amrywiaeth rhyfedd o eitemau! Edrychwch yn ofalus arnyn nhw, ac wedyn fe fyddai'n eu cuddio. Dych chi'n meddwl y byddwch chi'n gallu eu cofio? Maen nhw i gyd – heblaw am un - yn rhan o stori arbennig. Tra dych chi'n meddwl dw i am ddweud stori arall wrthyh chi....

Hanes y Nadolig. (Cyflwyniad Ppt i'w lawr lwytho -mae nodiadau i adrodd y stori ar y ppt)



Nawr – nôl i'r gêm cofio! Faint o'r eitemau fedrwch chi gofio?

Ydych chi wedi datrys y pos? Mae'r eitemau i gyd **heblaw am un** yn rhan o stori arbennig.

Wel, taswn i'n dweud bod y bluen yn fy atgoffa i o adenydd angel tybed pa stori dych chi'n meddwl amdani?

Ia, Stori'r Nadolig. Oedd yna rywbeth ar yr hambwrdd oedd ddim yn ffitio'r stori? Tybed pa eitem oedd ddim yn rhan o'r stori?

Fe edrychwn ni ar yr hambwrdd eto. Ym mha ran o'r stori fyddai'r eitemau yma'n ffitio?

1. Pluen– yr angel Gabriel aeth i weld Mair a Joseff
2. Y sgrôl – y cyfrifiad, y cyfri mawr – rhestru enwau pawb.
3. Coron– coron y Brenin Herod
4. Anrheg – roedd y gwŷr doeth wedi rhoi anrhegion
5. Baby-Gro'– doedd gan Iesu ddim Baby-gro,' cafodd ei lapio mewn cadachau.
6. Arian – Roedd yr ymerawdwr Rhufeinig wedi gorfodi pawb i gael eu cyfri er mwyn iddo wneud yn siŵr fod pawb yn talu trethi (arian) iddo.
7. Persawr neu After-Shave – un o anrhegion y gwŷr doeth
8. Gwlân– aeth y bugeiliaid ar frys i weld y baban Iesu.
9. Glôb neu fap yn dangos Israel - y rhan o'r byd lle ddigwyddodd y stori
10. Ydy'r gwpan yn ffitio i mewn i hanes y Nadolig? Na...

Da iawn! Mae pawb wedi cofio'n dda iawn.

Oeddech chi'n gwybod bod eich ymennydd chi fel ffeil storio mewn cyfrifiadur? Yn gallu storio pob math o wybodaeth.

Fe wnawn ni ddiolch i Dduw am yr hanes, ac am allu dweud yr hanes flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Gweddiwn:

Ein Tad, wrth i ni gofio'r holl bethau hyfryd sy'n digwydd adeg y Nadolig rydyn ni'n diolch am un hanes arbennig iawn. Rydyn ni'n diolch fod Iesu wedi dod i'r byd fel baban, a'i fod o'n frenin i'r holl fyd.

Amen

Adnoddau eraill

Mae gêm cofio arall i'w gael – Parau Adfent. Mae'n bosib lamineiddio'r cardiau, ac wedyn ceisio rhoi'r cardiau yn eu parau. Gallwch hefyd ddefnyddio'r cardiau i adrodd y stori, fel bod y plant yn canolbwyntio ar un ar y tro ac yn mynd drwy'r stori i gyd (er mwyn hybu eu sgiliau cofio a llefaru).